Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Y Gwir Anrhydeddus Priti Patel AS
Ysgrifennydd Cartref
2 Stryd Marsham
Llundain
SW1P 4DF

11 Mawrth 2020

**Parth: Erlyniadau cam-drin domestig a arweinir gan dystiolaeth**

Annwyl Ysgrifennydd Cartref

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â'r adroddiad y sonnir amdano uchod, sy'n cael ei groesawu gan y Prif Gwnstabl, Mark Collins, a minnau.

Fel y cydnabu'r adroddiad, mae Cam-drin Domestig dal yn flaenoriaeth ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, fel y llywodraethir gan y Cynllun Heddlu a Throseddu, y Strategaeth Reoli, a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl. Mae'r Prif Gwnstabl Collins yn dweud wrthyf fod nifer o'r argymhellion wedi'u gweithredu o fewn yr Heddlu yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r Heddlu wedi buddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddiant cam-drin domestig, ac wedi diwygio strwythurau a galluoedd er mwyn darparu gwell ymateb i achosion cam-drin domestig.

Mae'r adroddiad yn cydnabod nad oes mecanwaith mewn grym ar gyfer cipio'r data i fesur perfformiad gan Wasanaeth Erlyn y Goron neu wasanaethau heddlu. Cydnabu'r Prif Gwnstabl y bydd angen i'r ddwy asiantaeth ystyried hyn. Mae gan Heddlu Dyfed-Powys gyfraddau euogfarnu llwyddiannus ar gyfer achosion cam-drin domestig, sy'n uwch na'r perfformiad yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, fel y mae'r adroddiad yn nodi, ar hyn o bryd, ni all yr Heddlu wahaniaethu rhwng achosion lle nad yw'r dioddefydd o bosibl yn gefnogol ac felly maent yn methu nodi cyfran yr achosion lle mae hyn yn berthnasol. Trafodir achosion cam-drin rhwng Heddlu Dyfed-Powys a Gwasanaeth Erlyn y Goron mewn cyfarfod deufisol sy'n adrodd ar strwythur llywodraethu'r Heddlu. Mae'r Prif Gwnstabl Collins wedi rhoi enghreifftiau i mi o achosion unigol lle y sicrhawyd euogfarnau llwyddiannus yn absenoldeb cefnogaeth gan y dioddefwyr.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Rwyf hefyd wedi derbyn tystiolaeth o’r broses ar gyfer cyflwyno ffeiliau cyngor achosion cam-drin domestig i Wasanaeth Erlyn y Goron, ac rwyf wedi fy sicrhau bod hyn yn gweithredu fel anogwr i sicrhau bod yr holl dystiolaeth sydd ar gael wedi’i hystyried, gan gynnwys deunydd ar wahân i ddatganiad yr achwynydd. Rwyf hefyd yn croesawu defnydd cyson yr Heddlu o hysbysiadau amddiffyn rhag cam-drin domestig mewn achosion lle nad oes digon o dystiolaeth i gefnogi erlyniad, ond lle mae perygl gweddilliol yn parhau.

Roedd cyflwyno’r ddesg fregusrwydd yn Heddlu Dyfed-Powys yn anelu i roi cymorth rheng flaen i swyddogion sy’n ymateb i ddigwyddiadau cam-drin domestig er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth orau sydd ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol. Cynhwysir y defnydd o gamerâu corff yn y cyngor amser byw ynghyd ag adolygiad o’r neges 999 gychwynnol. Mae’r rhain yn gyfleoedd tystiolaethol allweddol sy’n cefnogi ymchwiliadau lle nad yw dioddefwyr yn gefnogol. O fis Ebrill 2020, bydd uned asesu risg eilaidd hefyd yn darparu sicrwydd ansawdd o ddigwyddiadau domestig. Rwy’n parhau i geisio diweddariadau perfformiad gan y Prif Gwnstabl er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn cyflwyno gwelliannau i’r ymateb a roddir i ddioddefwyr ac mewn erlyniadau effeithiol.

Mae copi o’r ymateb hwn ar fy ngwefan.

Yr eiddoch yn gywir

**Dafydd Llywelyn**
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Copi at: AEM Wendy Williams

Y Prif Gwnstabl Mark Collins

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu’r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

**web** www.dyfedpowys-pcc.org.uk **twitter** DPOPCC **facebook** dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner
**gwefan** www.dyfed-powys.pcc.police.uk **trydar** DPOPCC **facebook** dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner